Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

## Hillsboro Residential Care Home

Hillsboro Residential Home, Neptune Road, Tywyn, LL36 9ET

01654712170

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:**

15/05/2025, 16/05/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Megan Bartlett |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 5 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Rhagorol |
| Gofal a Chymorth | Rhagorol |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

# Crynodeb:

Gwasanaeth preswyl bach, annibynnol a theuluol yw Hillsboro, sydd wedi'i leoli yn nhref glan môr Tywyn, Gwynedd. Rheolwr y gwasanaeth yw'r Unigolyn Cyfrifol a'r darparwr hefyd, ac mae'n bresennol yn y gwasanaeth bob dydd.

Mae llesiant y bobl yn rhagorol gan fod y gofal y maent yn ei gael yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi cael ei deilwra at eu hanghenion a'u dymuniadau unigol. Heb amheuaeth, dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn byw yng nghartref Hillsboro. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a gallant ddweud eu dweud yn eu cartref. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon uchel, yn cynnal cymaint o annibyniaeth â phosibl ac yn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da, sy'n eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth a chyflawni eu canlyniadau personol.
Mae trefniadau rheoli a staffio'r gwasanaeth yn golygu bod y bobl yn cael gofal cyson gan staff sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n dda ac a gaiff eu cefnogi. Mae'r darparwr yn angerddol am ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r bobl lle maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel.

## Canfyddiadau:

**Llesiant** **Rhagorol**

Mae canlyniadau iechyd a llesiant y bobl yn rhagorol. Mae hyn am eu bod yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio'n gyson ar yr unigolyn, sy'n diwallu eu hanghenion unigol ac sy'n ystyried eu dymuniadau. Mae'r bobl mor annibynnol ag y maent yn dymuno bod ac yn gwneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd gan wybod bod y staff gofal yno os bydd eu hangen arnynt. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser a gyda phwy yr hoffent dreulio eu hamser. Mae'r bobl wedi meithrin cyfeillgarwch cadarn, ac fe'u gwelsom yn cymdeithasu â'i gilydd. Mae'r darparwr yn ymdrechu i sicrhau bod y pethau sy'n bwysig i'r bobl ar gael iddynt. Dywedodd un person fod y papur newydd dyddiol yn bwysig iddo, dywedodd un arall ei fod yn 'dianc' wrth ddarllen nofelau ac mae person arall yn defnyddio ei dabled digidol i gadw mewn cysylltiad agos â'i deulu a'i ffrindiau. Mae'r bobl yn defnyddio seinyddion deallus yn ystod sesiynau adloniant ac i ofyn cwestiynau. Gall y bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau ac i ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Clywsom y bobl yn chwerthin wrth iddynt chwarae gêm gyda'i gilydd yn ystod y bore a sgyrsiau difyr pellach yn ystod amser cinio wrth iddynt hel atgofion am ddawnsio pan roeddent yn iau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mynd ar deithiau yn y car ac y gallant fynd i'r siopau drwy ofyn i'r staff. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn cerbyd newydd i sicrhau y gall y bobl barhau i fynd allan wrth i'w hanghenion newid. Mae aelodau o deuluoedd a ffrindiau'r bobl, a oedd hefyd yn canmol y gwasanaeth, yn dod i ymweld â nhw yn rheolaidd. Clywsom un person yn dweud wrth ei anwylyd, "*I have had a great week, it's been a laugh a minute.*" Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trefnu blodau, gemau a digwyddiadau cerddorol. Maent yn mynd allan i'r gymuned ac yn mwynhau dathlu digwyddiadau arbennig. Mae'r darparwr yn rhoi sylw manwl i fanylder er mwyn sicrhau bod y bobl yn teimlo mor gyfforddus ag y gallant, er enghraifft mae'n eu holi am eu hoff anifail neu flodau ac yn gosod napcynnau ar y bwrdd bwyta sy'n adlewyrchu hyn. Caiff diodydd poeth eu gweini mewn cwpanau a soseri Tsieina; dywedodd y bobl, *"nothing is too much trouble."*

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae pob aelod o staff y gwasanaeth yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i gefnogi hyn. Mae gwybodaeth am bwy y dylent siarad â nhw a'r ffordd i gysylltu â nhw am faterion diogelu ar gael i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi, a gwelsom fod y darparwr yn gweithredu'n gyflym os bydd damweiniau'n digwydd, neu pan fo pryderon yn cael eu nodi, gan roi gwybod i'r cyrff proffesiynol perthnasol a rheoleiddiwr y gwasanaeth. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n "*happy,*" "*very lucky*" ac yn "*safe*" lle roeddent yn byw.

Mae llesiant y bobl yn gwella gan fod y darparwr yn nodi ac yn cefnogi eu hanghenion ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol. Mae cynrychiolwyr crefyddol yn ymweld â'r gwasanaeth er mwyn i'r bobl

barhau i ymarfer eu credoau crefyddol. Mae llawer o'r bobl wedi byw ac wedi'u magu yn y gymuned leol ac mae treftadaeth Cymru yn rhan bwysig o'u hunaniaeth. Gwelsom fod adloniant Cymraeg ar gael i'r bobl ac y gallant gael gofal yn Gymraeg os byddant yn dewis cael hynny. Clywsom y Gymraeg yn cael ei siarad drwy gydol y dydd.

## Gofal a Chymorth **Rhagorol**

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd uchel a gaiff ei ddarparu'n gyson gan staff cyfarwydd sy'n adnabod y bobl yn dda iawn ac sydd wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw. Dywedodd un person wrthym "*They know us so well*." Gwelsom fod y darparwr yn cynnal asesiadau i nodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl ac i sicrhau y gall y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r bobl yn cyfrannu at y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn eu cofnodion gofal a chaiff y cyfraniad hwn ei gofnodi yn ystod adolygiadau. Maent yn rhannu gwybodaeth am eu hoff bethau, eu cas bethau, hanes eu bywyd, eu teulu a'r hyn sy'n bwysig iddynt nawr, gan gynnwys eu harferion pwysig. Caiff manylion bach eu nodi, fel y colur a'r persawr yr hoffai'r bobl eu defnyddio, sut yr hoffent wisgo a phethau yr hoffent roi cynnig arnynt. Dywedodd un person, *"I enjoy the little things, family means the most."* Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, gan ddarparu gofal ar gyflymder sy'n addas i'r person. Gwelsom fod y staff gofal yn ymateb i geisiadau am gymorth mewn modd amserol ac, yn aml, cyn i'r person ofyn. Mae hyn am fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn gyfarwydd â'u harferion. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio mewn ffordd ystyrlon a gofalgar, gan addasu eu dull a'u ffordd o gyfathrebu â phob unigolyn, ond mae pob un ohonynt yn meddu ar yr un sgiliau i annog sgyrsiau grŵp a gemau lle y gall pawb gymryd rhan ynddynt. Dywedodd un person wrthym, "*The girls are wonderful here*," dywedodd un arall, "*staff are so wonderful they get me everything I need*." Mae asesiadau risg ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel, ond hefyd i sicrhau bod y bobl mor annibynnol ag y gallant fod. Gwelsom enghraifft lle roedd person wedi cael cymorth ac arweiniad rhagorol er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am driniaeth feddygol bosibl. Cafodd gymorth i ddarllen y wybodaeth a ddarparwyd ac i drafod ei safbwyntiau â'r bobl a oedd yn bwysig iddo. Cofnodwyd ei benderfyniad, a chafodd ei gefnogi i gyfleu hyn i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n iach. Gwelsom fod cyngor yn cael ei geisio pan fo'r bobl yn rhannu pryder, a bod cofnodion yn cael eu cwblhau pan fo'r bobl yn mynd i apwyntiadau â nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Lle y bo anghenion y bobl yn newid, mae'r darparwr yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol. Caiff y bobl ofal traed preifat yn y cartref, yn ogystal ag apwyntiadau gwallt a thriniaethau eraill i wella eu llesiant. Mae'r darparwr wedi rhoi menter Gwên am Byth ar waith i hybu gofal y geg da mewn lleoliadau preswyl. Mae'r bobl yn mwynhau deiet amrywiol a chytbwys, sy'n cynnwys digon o ffrwythau a llysiau ffres, a bwydydd llawn protein o ansawdd – ar ddiwrnod yr arolygiad, cafodd pysgodyn, a oedd wedi cael ei ddal y noson flaenorol gan y perchennog, ei weini i'r bobl. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn canmol bwyd y gwasanaeth yn fawr. Dywedodd un person wrthym, "*I have never eaten such good food*," a dywedodd un arall, *"it is out of this world."* Mae anghenion y bobl o ran meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Y gwasanaeth neu'r unigolyn ei hun sy'n rheoli ei feddyginiaeth. Mae cytundebau meddyginiaeth ar waith sy'n amlinellu'r cymorth gofynnol y cytunwyd arno yn glir. Mae trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n lân iawn lle caiff prosesau atal a rheoli heintiau eu rheoli'n dda. Caiff canllawiau gan y bwrdd iechyd lleol eu dilyn ac mae'r staff yn cynnal archwiliadau o hyn, gan roi camau gweithredu ar waith a mynd i'r afael â nhw lle bo angen. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r gweithwyr gofal fel menig a masgiau wyneb.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel, yn lân ac yn gartrefol. Mae'r gwasanaeth wedi'i addurno i safon uchel ac yn lân iawn. Cafodd y lolfa ei hailaddurno'n ddiweddar a dywedodd un person fod yr ystafell yn "*absolutely beautiful*." Gall y bobl ddewis treulio eu hamser yn eu hystafell wely eu hunain neu yn y lolfa gymunedol neu'r ystafell fwyta. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau ac yn fawr, sy'n golygu y gall y bobl symud o gwmpas yn ddiogel gan ddefnyddio cymhorthion. Mae bwrdd mawr yn yr ystafell fwyta a chaiff ei osod ar gyfer pob unigolyn bob dydd, sy'n hyrwyddo profiad bwyta pleserus. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar mewn cyflwr da a chânt eu gwasanaethu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff y bobl eu hannog i symud o gwmpas ac i gynnal eu hannibyniaeth. Mae ardal awyr agored ym mlaen ac yng nghefn y gwasanaeth. Gellir cyrraedd yr ardaloedd hyn yn hawdd ac mae digon o seddi a chysgod yno i'r bobl fwynhau'r ardd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y bobl yn eistedd ar y teras y tu allan i'w hystafelloedd yn mwynhau'r haul, yn darllen ac yn cwrdd â'u hymwelwyr. Dywedodd un person wrthym ei fod yn arfer mwynhau garddio a'i fod wrth ei fodd â blodau, a bod y darparwr bob amser yn gwneud yn siŵr bod rhywbeth pleserus yn yr ardd iddo edrych arno oherwydd hynny. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau en-suite yn ogystal â'r opsiwn o fath/cawod hygyrch. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli yn unol â chwaeth y bobl, a'u haddurno â lluniau, ornamentau a llenni a deunyddiau. Gall y bobl gloi drws eu hystafelloedd a chael lle diogel i storio eu heiddo yn yr ystafell wely.

Mae mesurau priodol ar waith i fonitro a mynd i'r afael â materion Iechyd a Diogelwch yn y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn byw mewn amgylchedd diogel sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfleustodau fel nwy, trydan a dŵr yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu yn rheolaidd, fel sy'n ofynnol. Caiff gwiriadau diogelwch tân mewnol eu cynnal yn rheolaidd ac mae gweithwyr diogelwch tân proffesiynol allanol yn ymweld â'r gwasanaeth. Mae asesiad risg lefel uchel ar Iechyd a Diogelwch wedi'i gynnal gan arbenigydd cydymffurfiaeth.

Ni all unrhyw un fynd i mewn i'r gwasanaeth o'r tu allan, ond nid yw'r bobl wedi'u cyfyngu a gallant fynd a dod fel y mynnant. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei thrin mewn modd sensitif a'i storio mewn cyfleuster dan glo pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Dyfarnwyd sgôr o bump i'r gwasanaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl, sy'n dangos lefel uchel o ddiogelwch bwyd a glendid.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Gwasanaeth preswyl bach, annibynnol a theuluol yw Hillsboro. Y darparwr yw'r Unigolyn Cyfrifol a rheolwr y gwasanaeth hefyd.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth a gaiff ei reoli'n dda ac sy'n ymgynghori â'r bobl sy'n byw yno am benderfyniadau a wneir yn y cartref. Gofynnir i'r bobl am eu barn a'u syniadau yn rheolaidd. Gwneir hyn drwy arolygon adborth a holiaduron yn y cartref. Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn sgwrsio'n anffurfiol â'r bobl bob dydd wrth y bwrdd yn ystod prydau bwyd ac yn sgwrsio â nhw un i un. Gall y bobl gyflwyno eu syniadau a'u hawgrymiadau yn ddienw mewn blwch sylwadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth yn ddyddiol ac mae'n goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei redeg o ddydd i ddydd yn rhagorol. Gwelsom amgylchedd tawel a threfnus; dywedodd un person wrthym, "*It is a lovely atmosphere here*." Mae'r darparwr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n amlwg o'r ffordd y mae'n gwrando ar ganllawiau gan gomisiynwyr a'r rheoleiddiwr ac yn eu rhoi ar waith. Gwelsom fod cofnodion a phrosesau newydd wedi cael eu rhoi ar waith sy'n gwella darpariaeth gyffredinol y gwasanaeth a'r broses o lywodraethu meysydd fel cynnal a chadw a recriwtio.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi'n briodol, ac sy'n brofiadol yn eu rôl. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff gofal ac maent wedi cael eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r gwiriadau a'r gofynion cofrestriad proffesiynol hyn yn sicrhau bod y bobl yn addas i weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg. Mae gan y rheolwr a staff gofal y gwasanaeth flynyddoedd lawer o brofiad o weithio yn y sector gofal cymdeithasol ac maent yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth drwy gwblhau hyfforddiant a cheisio arweiniad ar bynciau perthnasol. Mae'r rheolwr wedi creu ffynhonnell wybodaeth lle y gall y staff ddod o hyd i wybodaeth bellach am bynciau amrywiol, o asesiadau iechyd a diogelwch i brosesau goruchwylio. Gofynnir am arweiniad gan y bwrdd iechyd lleol ac mae'r staff yn ei ddilyn er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol o hyd.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu yn ôl yr angen ac mae asesiadau risg cyfatebol ar gael pe bai angen. Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth bwysig am ble maent yn byw. Mae hyn yn cynnwys datganiad o ddiben a chanllaw y gwasanaeth sy'n dweud wrth y bobl beth y gallant ei ddisgwyl gan y darparwr a manylion gweithdrefnau pwysig fel diogelu, cwynion a diogelwch tân.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*